

## Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein – crynodeb o'r camau gweithredu

1. Cyngor a chymorth		Statws
1.1	Er mwyn cydnabod cyfraniad pwysig rhieni a gofalwyr at gadw eu plant yn ddiogel ar-lein, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu canllawiau dwyieithog ar faterion diogelwch ar-lein amrywiol er mwyn eu helpu i gadw eu teuluoedd yn ddiogel ar-lein.	Parhaus.
1.2	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i rannu awgrymiadau a chyngor rheolaidd â rhieni a gofalwyr ynglŷn â defnyddio amser o flaen sgrin yn ddiogel drwy wefan a thudalennau Facebook ein hymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo.'	Parhaus.
1.3	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn darparu canllawiau ac adnoddau dwyieithog ar ddiogelwch ar-lein i lywodraethwyr ysgolion er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth bellach o faterion diogelwch ar-lein a'u helpu i gyflawni eu cyfrifoldeb i gadw dysgwyr yn eu hysgolion yn ddiogel ar-lein.	Parhaus.

2. Cydweithio		Statws
2.1	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chanolfan Rhyngryd Mwy Diogel y DU i helpu i ddarparu digwyddiadau diogelwch ar-lein, gan gynnwys y Diwrnod Defnyddio'r Rhyngryd yn Fwy Diogel blynyddol, sesiynau paratoi rhanddeiliaid a sesiynau gwybodaeth 'Diogelwch Ar-lein yn Fyw'.	Parhaus.
2.2	Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngryd y DU a'r Papur Gwyn 'Online Harms'.	Parhaus.
2.3	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrannu at Fwrdd Gweithredol Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch Plant ar y Rhyngryd (UKCCIS) er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael ei chynrychioli ar lefel y DU.	Parhaus.
2.4	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrannu at Fwrdd Gweithredol Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch Plant ar y Rhyngryd (UKCCIS) er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael ei chynrychioli ar lefel y DU.	Parhaus.

2.5	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), gan ystyried materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein, fel sy'n briodol. Bydd y Grŵp Cynghori ar ABCh yn parhau i sicrhau ansawdd gwersi yn ymwneud ag ABCh pan fydd angen.	Parhaus.
2.6	Bydd diogelwch ar-lein yn chwarae rôl allweddol mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y dyfodol yn dilyn argymhellion y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ym mis Mawrth 2017.	Ar y gweill.
2.7	Bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol drwy barhau i weithio gydag ysgolion i ymgorffori'r sgiliau digidol, yr wybodaeth a'r agweddau sydd eu hangen ym mhob rhan o'r cwricwlwm i ddiogelu dysgwyr ar-lein.	Parhaus.
2.8	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid drwy'r Grant Gwella Ysgolion Rhanbarthol er mwyn galluogi'r consortia rhanbarthol i hyrwyddo dinasyddiaeth ddigidol, a defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol.	Ar y gweill.
2.9	Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at Bartneriaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd Cymru (WISP) er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni gwaith diogelwch ar-lein a thrafod materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein.	Parhaus.
2.10	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gryfhau darpariaeth diogelwch ar-lein mewn lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion.	Cwblhawyd.
2.11	Bydd portffolios lechyd ac Addysg Llywodraeth Cymru yn cyd-ariannu cynllun peilot i brofi'r mewngymorth iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i ysgolion.	Ar y gweill.
2.12	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Ysgolion Arloesi drwy'r meysydd dysgu a phrofiad perthnasol, gan gynnwys lechyd a Lles, er mwyn sicrhau bod materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru.	Cwblhawyd.
2.13	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn 2019–20 mewn partneriaeth â'r heddlu. Mae diogelwch ar-lein yn faes a gwmpesir gan y rhaglen.	Wedi cau.
2.14	Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r Ganolfan Seiber Ddiogelwch Genedlaethol i hyrwyddo rhaglenni Cyber First yng Nghymru.	Parhaus.
2.15	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Get Safe Online er mwyn sicrhau y caiff y wefan Gymraeg newydd ei lansio'n effeithiol.	Parhaus.
2.16	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cenhedloedd datganoledig eraill a Llywodraeth y DU i rannu arferion da o ran diogelwch ar-lein ac ystyried cyfleoedd i gydweithredu.	Parhaus.

2.17	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Google a ParentZone i gefnogi eu rhaglen addysg ar ddiogelwch ar-lein.	Ar y gweill.
2.18	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chyingor hygyrch er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r mater yn ymwneud â hunan-niwed a hunanladdiad.	Cwblhawyd.
2.19	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i ystyried cyfleoedd i gydweithio er mwyn darparu addysg a chodi ymwybyddiaeth o achosion o gam-drin a cham-fanteisio ar blant ar-lein.	Ar y gweill.
2.20	Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati, drwy'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, i ddatblygu 'Diogelu Darganfod. Cysylltu' fel brand ar gyfer adnoddau cydweithredol.	Parhaus.
2.21	Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â diwydiant a'r byd academiaidd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu seiber ddiogelwch i sicrhau y gellir ateb y galw am sgiliau ac y gall gweithwyr proffesiynol ym maes seiber ddiogelwch gael swyddi gwerth chweil yng Nghymru.	Cam gweithredu newydd.
2.22	Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r Rhwydwaith Swyddogion Diogelu Data Ysgolion Cymru Gyfan.	Cam gweithredu newydd.
2.23	Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu ag Internet Matters i ystyried cyfleoedd i gydweithio.	Cam gweithredu newydd.
2.24	Bydd Llywodraeth Cymru yn meithrin ei chydberthynas â'r Internet Watch Foundation (IWF), gan gefnogi darpariaeth diogelwch ar-lein yng Nghymru.	Cam gweithredu newydd.
2.25	Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol i lunio a datblygu llwybrau i ddysgwyr yng Nghymru ymuno â'r diwydiant seiber ddiogelwch a hyrwyddo gweithgareddau allgymorth gydag ysgolion.	Cam gweithredu newydd.
2.26	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i godi ymwybyddiaeth o faterion megis camwybodaeth ac iaith sy'n ennyn casineb ar-lein tuag at ferched a menywod.	Cam gweithredu newydd.
2.27	Bydd Llywodraeth Cymru yn ymuno â Grŵp System Rhybudd Cynnar Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngryd (UKCIS) ac yn cael ei chynrychioli arno.	Cam gweithredu newydd.

3. Cyfathrebu a hyrwyddo		Statws
3.1	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ym maes addysg sy'n cynnwys ffocws ar ddiogelwch ar-lein.	Parhaus.
3.2	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu parth diogelwch ar-lein deinameg ar Hwb, sy'n cynnwys ffynonellau newyddion, digwyddiadau ac adnoddau i blant, pobl ifanc, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr mewn perthynas â diogelwch ar-lein.	Parhaus.
3.3	Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngryd yn Fwy Diogelyng Nghymru bob blwyddyn er mwyn codi proffil a phwysigrwydd diogelwch ar-lein ledled Cymru.	Parhaus.
3.4	Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth helaeth o'r gweithgareddau diogelwch ar-lein sy'n digwydd ledled Cymru.	Parhaus.
3.5	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda SWGfL i ddarparu cylchlythyr dwyieithog misol ar ddiogelwch ar-lein.	Parhaus.
3.6	Gan adeiladu ar ymgyrch 'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn', mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ymgyrch ar waith i dynnu sylw at reolaeth drwy orfodaeth mewn cydberthnasau, wedi'i hanelu'n benodol at bobl ifanc.	Cwblhawyd.
3.7	Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r sector gwaith ieuenctid i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael ar ddiogelwch ar-lein, a'u bod yn cael eu hyrwyddo.	Parhaus.
3.8	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Ganolfan Seiber Ddiogelwch Genedlaethol i gefnogi a datblygu gweithgareddau addysg i'w cynnwys yn Rhaglen CYBERUK 2021.	Cam gweithredu newydd.
3.9	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ymgyrch i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r risg o we-rwydo er mwyn cefnogi rhanddeiliaid addysg yng Nghymru.	Cam gweithredu newydd.
3.10	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adeiladu ar ymgyrch 'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn', a'i datblygu.	Cam gweithredu newydd.

4. Canllawiau a pholisi		Statws
4.1	Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio ac yn diweddarau'r canllawiau statudol ar ddiogelwch, Cadw dysgwyr yn ddiogel, a fydd yn cynnwys diweddariad ar ddiogelwch ar-lein.	Ar y gweill.
4.2	Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod materion yn ymwneud â meithrin perthynas amhriodol ar-lein a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael eu hystyried wrth ddiweddarau'r canllawiau statudol 'Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol'.	Ar y gweill.
4.3	Bydd grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth yn datblygu canllawiau ymarfer Cymru gyfan ar ddiogelu plant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin ar-lein. Bydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro yn ymgynghori ar y canllawiau hyn ac yn eu cyhoeddi ar ran Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Byrddau Diogelu yng Nghymru. Bwriedir i'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol a'r canllawiau ymarfer ategol gael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2019.	Ar y gweill.
4.4	Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y safonau hidlo'r we a argymhellir ar gyfer ysgolion yng Nghymru.	Parhaus.
4.5	Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diwygio'r canllawiau gwrthfwlio anstatudol, 'Parchu eraill', sy'n cynnwys cyngor ar fynd i'r afael ag achosion o fwlio ar-lein mewn ysgolion.	Ar y gweill.
4.6	Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adnoddau gwrthfwlio sydd ar gael i ysgolion ar hyn o bryd ac yn asesu unrhyw anghenion i helpu ymarferwyr addysg i fynd i'r afael ag achosion o fwlio mewn lleoliadau addysg.	Ar y gweill.
4.7	Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal canllawiau Gwrthsafiad a pharch i ysgolion.	Parhaus.
4.8	Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi 'Cysylltu Cymunedau: Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach' ar waith.	Ar y gweill.
4.9	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu, diweddarau a chyhoeddi ei chanllawiau Ffrydio byw a fideogynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu.	Cam gweithredu newydd.
4.10	Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo canllawiau 'Rhannu delweddau noeth a rhannol noeth: ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc. Canllawiau i leoliadau addysg yng Nghymru'.	Cam gweithredu newydd.
4.11	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr angen i addasu a chyhoeddi Adnodd Archwilio Diogelwch Ar-lein Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch ar y Rhyngryd (UKCIS) i gefnogi athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd gymhwyso.	Cam gweithredu newydd.

5. Ymchwil		Statws
5.1	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y defnydd o amser o flaen sgrin ymhlith plant ifanc yng Nghymru ar hyn o bryd, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi yn y maes hwn.	Ar y gweill.
5.2	Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020–21, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys diogelwch ar-lein fel pwnc.	Parhaus.
5.3	Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Ganolfan Seiber Ddiogelwch Genedlaethol i dreialu ardystiad 'Cyber Essentials' mewn lleoliadau addysg yng Nghymru.	Cam gweithredu newydd.
5.4	Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i werthuso aeddfedrwydd prosesau seiber sefydliadau addysg yng Nghymru.	Cam gweithredu newydd.
5.5	Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Prosiect Datblygu Cadernid yn erbyn Achosion o Feithrin Perthynas Amhriodol Ar-lein a arweinir gan Brifysgol Abertawe, ynghyd â'i chynnig i ddatblygu cyfres o adnoddau rhyng-gysylltiedig i atal a mynd i'r afael ag achosion o feithrin perthynas amhriodol ar-lein.	Cam gweithredu newydd.

6. Adnoddau		Statws
6.1	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda SWGfL i hyrwyddo a darparu mynediad i 360 safe Cymru, sef adnodd hunanasesu diogelwch ar-lein dwyieithog sydd ar gael i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, drwy gofrestru unwaith â Hwb. Caiff cynnwys yr adnodd, yn ogystal â'r templedi polisi cysylltiedig, eu diweddarau unwaith bob dwy flynedd.	Wedi cau.
6.2	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer dysgwyr cynradd ac uwchradd ar amrywiaeth o faterion penodol yn ymwneud â diogelwch ar-lein.	Parhaus.
6.3	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr adnoddau diogelwch ar-lein sydd ar gael a sut y gellir eu teilwra ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n addysgu yn y cartref.	Ar y gweill.
6.4	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau diogelwch ar-lein dwyieithog ar gyfer ymarferwyr addysg, gan gynnwys adnoddau ystafell ddosbarth a chanllawiau i athrawon.	Parhaus.
6.5	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyflwyno adnodd archwilio trefniadau diogelu a chanllawiau i ysgolion eu defnyddio i asesu eu darpariaeth diogelu.	Cwblhawyd.
6.6	Bydd y fersiwn ddiweddaraf o becyn cymorth cwnsela Llywodraeth Cymru yn cynnwys pennod ar gwnsela ar-lein, gan roi canllawiau ar ddarparu gwasanaeth ar-lein diogel.	Ar y gweill.
6.7	Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer cwmpasu bach ar adnoddau diogelwch ar-lein i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).	Ar y gweill.



6.8	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi pecyn cymorth diogelwch ar-lein i ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.	Cwblhawyd.
6.9	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres o chwe ffilm ar ddiogelwch ar-lein i rieni, gofalwyr a theuluoedd.	Cwblhawyd.
6.10	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Common Sense Education i gyhoeddi gwersi dwyieithog ar ddinasyddiaeth ddigidol ar gyfer ymarferwyr addysg.	Cam gweithredu newydd.
6.11	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Childnet i ddarparu adnoddau dwyieithog ar aflonyddu rhywiol ar-lein ar gyfer ysgolion yng Nghymru.	Cam gweithredu newydd.
6.12	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r NSPCC i ddiweddarau, adolygu a chyhoeddi fersiynau dwyieithog o adnoddau Net Aware yr NSPCC a chymorth ychwanegol i rieni a gofalwyr.	Cam gweithredu newydd.
6.13	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu rhaglen waith gynhwysfawr i ddarparu adnoddau ar seiber gadernid i randdeiliaid addysg ledled Cymru.	Cam gweithredu newydd.
6.14	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid i ehangu ei chynnwys ar gadernid digidol sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc.	Cam gweithredu newydd.
6.15	Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod holl adnoddau a gwasanaethau Hwb yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, yn ogystal â chefnogi ysgolion i gyflawni eu rhwymedigaethau o ran diogelu data a bodloni eu gofynion o ran cadernid digidol drwy waith cydweithredol a rhaglenni addysg perthnasol, e.e. Cyber Essentials.	Cam gweithredu newydd.
6.16	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda SWGfL i hyrwyddo a darparu mynediad i 360 safe Cymru, sef adnodd hunanadolygu diogelwch ar-lein dwyieithog sydd ar gael i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, drwy gofrestru unwaith â Hwb. Caiff hwn ei ddiweddarau a'i ehangu i gynnwys adnodd 360 digi Cymru, sef adnodd hunanadolygu er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau addysg i werthuso pa mor dda y maent yn cynllunio, yn cymhwyso ac yn cynnal dysgu digidol.	Cam gweithredu newydd.

<b>7. Hyfforddiant a datblygiad</b>		<b>Statws</b>
7.1	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar ddiogelwch ar-lein, gan ganolbwyntio ar feysydd penodol yn ymwneud â diogelwch ar-lein.	Ar y gweill.
7.2	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo'r modiwlau Cadw dysgwyr yn ddiogel – Diogelwch ar-lein	Parhaus.
7.3	Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod diogelwch ar-lein yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r oll weithgarwch yn ymwneud â chynhwysiant digidol.	Parhaus.
7.4	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddarparu deunydd hyfforddiant a chymorth yn ymwneud â materion gwrthderfysgaeth.	Parhaus.
7.5	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i ddatblygu pecyn hyfforddi ar-lein ar seibergadernid ar gyfer rhanddeiliaid addysg yng Nghymru.	Cam gweithredu newydd.
7.6	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg, i nodi achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), ac ymateb iddynt.	Cam gweithredu newydd.
7.7	Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff cadernid digidol ei gynrychioli a'i ystyried fel rhan o'r gwaith parhaus ar ddiogelu a phlant a phobl ifanc agored i niwed.	Cam gweithredu newydd.